Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r gyd-ddealltwriaeth rhwng y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus (PRO) a Gweinyddiaeth y Cynulliad (a ddiffinnir fel staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac y cyfeirir ati yma wedi hyn fel y Cynulliad). Datganiad o fwriad yw'r Memorandwm, ac ni ddylid ei ddehongli fel cytundeb neu gontract rhwymol. Nid yw'n creu hawliau, rhwymedigaethau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwng y partïon. Bwriedir iddo rwymo o ran anrhydedd yn unig. Nid yw'n creu unrhyw hawliau ynglyn ag ymgynghori na hawliau i atal ymgynghori y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl statudau.
2. Bwriad y Memorandwm yw hybu cydweithredu a chyfathrebu adeiladol. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gwaith gan y swyddogion i barhau i feithrin perthnasoedd rhwng y ddau barti o'i fewn. Y prif nod yw sicrhau y bydd y naill yn rhoi digon o rybudd ymlaen llaw os yw'n bwriadu cymryd camau sy'n effeithio ar gyfrifoldebau'r llall.
3. Y brif sianel ar gyfer cyfathrebu ar bob mater ynglyn â chofnodion cyhoeddus Cymru fydd honno rhwng Rheolwr Cleient (CM) y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus sy'n gyfrifol am y Cynulliad a Swyddog Cofnodion Adrannol (DRO) y Cynulliad. Yn ysgrifenedig y dylid ymgynghori yn ffurfiol fel arfer, gan gydategu hynny yn rheolaidd drwy gysylltiadau anffurfiol rheolaidd lle bynnag y bo modd. Ym mhob achos sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus Cymru lle defnyddir sianeli cyfathrebu eraill, dylid rhoi gwybodaeth gyflawn i'r CM a'r DRO fel rhan o'r drefn.

Y Fframwaith Cyfreithiol

4. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998:

- yn nodi categori newydd o gofnodion cyhoeddus i'w galw'n gofnodion cyhoeddus Cymru. Rhestrir y cofnodion sy'n perthyn i'r categori hwn yn adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys cofnodion y Cynulliad a chofnodion a oedd gynt yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus;

- yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, os yw'n dymuno, i wneud trefniadau addas ar gyfer dethol cofnodion cyhoeddus Cymru a gwneud trefniadau ar gyfer eu storio yn y tymor hir a threfniadau i'r cyhoedd gael eu gweld. Caiff y trefniadau hyn eu hasesu gan swyddogion o'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn unol â'r safonau sy'n gymwys ar gyfer cofnodion y DU. Pan fydd yr Arglwydd Ganghellor wedi cymeradwyo'r trefniadau hyn, bydd yn gwneud Gorchymyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb llawn dros gofnodion cyhoeddus Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- yn ei gwneud yn ofynnol i Geidwad y Cofnodion Cyhoeddus, ar ran yr Arglwydd Ganghellor, oruchwylio'r trefniadau cyfredol ar gyfer cofnodion cyhoeddus Cymru nes bod Gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud.

5. Bydd y Memorandwm hwn yn aros mewn grym tra bydd y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â chofnodion cyhoeddus Cymru yn bodoli. Os ceir unrhyw newid, daw'r Memorandwm i ben a deuir ag un newydd i rym.

Y cydadwaith rhwng Cyfrifoldebau'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus a Chyfrifoldebau'r Cynulliad

6. Credir bod cyfathrebu da yn bwysig ac felly fe fydd y ddau barti:

- yn ceisio cynnwys ei gilydd, fel y bo'n briodol a phan fo'n briodol, wrth lunio polisïau;
- yn rhoi gwybod i'w gilydd am ddatblygiadau sy'n effeithio ar bob maes o reoli cofnodion;

- yn rhoi ystyriaeth briodol i farn y llall a lle bo modd yn caniatáu graddfa amser resymol ar gyfer rhoi ystyriaeth briodol i sylwadau a gwybodaeth;
- yn rhoi gwybod i'w gilydd am unrhyw wybodaeth berthnasol y gall fod angen gweithredu yn ei chylch neu a all greu goblygiadau ar gyfer adnoddau y parti arall;
- yn rhoi rhybudd ymlaen llaw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, am gyhoeddiadau polisi newydd o sylwedd;
- yn rhannu gwybodaeth, dadansoddiadau ac ymchwil, lle byddai trefniadau o'r fath o les i'r ddau.

7. Bydd y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus:

- yn rhoi canllawiau ac yn darparu safonau y cytunir arnynt ar gyfer y meysydd bras canlynol:
    - rheoli cofnodion byw;
    - storio cofnodion;
    - gwerthuso cofnodion;
    - paratoi cofnodion dethol i'w trosglwyddo i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus neu i fan adnau arall ar gyfer cofnodion cyhoeddus a gymeradwywyd o dan adran 4(1) o Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958;
    - pob agwedd ar reoli cofnodion a dogfennau electronig;
    - y cyfle i'r cyhoedd gael gweld cofnodion cyhoeddus Cymru.

- Caiff canllawiau a chymorth eu darparu drwy gyfrwng:
    - ymweliadau rheolaidd gan y Rheolwr Cleientau a staff eraill yn ôl yr angen;
    - rhoi cyngor penodol ar ffurf ysgrifenedig neu electronig neu dros y ffôn;
    - cynhyrchu canllawiau a safonau cyhoeddedig;
    - ategu rhaglen o seminarau hyfforddi, a fydd yn arwain at gymhwyster a gymeradwyir;
    - darparu gwasanaeth ymgynghoriaeth rheoli cofnodion, y codir tâl amdano;
    - darparu cynhadledd flynyddol a seminarau a chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

8. Bydd y Cynulliad:

- yn cyflawni'r swyddogaethau a restrir isod yn unol â'r safonau a gynhyrchir gan y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus:
    - ymgynghori â'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn ôl yr angen, ond yn benodol ym meysydd rheoli'r holl gofnodion cyfredol gan gynnwys cofnodion electronig;
    - gwerthuso, paratoi a throsglwyddo cofnodion dethol i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn rheolaidd ac yn brydlon;
    - sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn yr amgylchedd cofnodion wedi'u hyfforddi i safon briodol;
    - creu, trefnu a storio'r holl gofnodion mewn ffordd a fydd yn sicrhau eu bod yn goroesi ac yn gallu cael eu hadfer;
    - trefnu bod set o gofnodion trafodion y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys ei bwyllgorau, yn cael ei chadw i'w throsglwyddo yn y dyfodol i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus neu i fan adnau a ddynodir gan yr Arglwydd Ganghellor.

Y Berthynas â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

9. Mae trefniadau arbennig wedi'u sefydlu mewn perthynas â sut i drin cofnodion sy'n perthyn i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (OSSW) o dan delerau Cytundeb Lefel Gwasanaeth a luniwyd rhwng OSSW a'r Cynulliad. Mae'r trefniadau hynny'n ymdrin â meysydd fel storio, mynediad, adfer, adolygu, dinistrio, cadw a chyngor a chanllawiau.
Cyrff Cofnodion Cyhoeddus Cymru (gweler y rhestr yn Atodiad A)

10. Y trefniant ar hyn o bryd yw bod cyrff cofnodion cyhoeddus Cymru, gan gynnwys OSSW, wedi penodi eu DRO eu hunain ac yn ymdrin yn uniongyrchol â'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus. Dylai hyn barhau.
11. Y Cynulliad sy'n gyfrifol am ariannu'r mwyafrif o'r cyrff hyn. Gan gydgysylltu â'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, dylai DRO y Cynulliad gadw llygad ar y cyrff hyn. Os daw unrhyw broblemau yn hysbys i'r Cynulliad, bydd yn gwneud ei orau glas, unwaith eto gan gydgysylltu â'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, i gael y corff o dan sylw i gymryd camau adfer.
12. Dylai'r Cynulliad sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi, pan fydd unrhyw gorff newydd sydd i'w noddi yn cael ei sefydlu, i sicrhau bod gan gofnodion cyrff o'r fath statws cofnodion cyhoeddus Cymru.
13. Dylai'r Cynulliad ystyried hefyd a ddylai statws cofnodion unrhyw un o'r cyrff sy'n cael eu noddi ar hyn o bryd ac nad oes ganddynt statws fel cofnodion cyhoeddus Cymru, gael ei newid, ac os felly, trefnu bod newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud.

Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus i Gymru

14. Mae adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhoi pwer i'r Arglwydd Ganghellor nodi o dan Orchymyn sut y dylai'r Cynulliad ymdrin â chofnodion cyhoeddus Cymru, gan gynnwys creu Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus i Gymru. Bydd angen i unrhyw gais gan y Cynulliad i Orchymyn o'r fath gael ei wneud fodloni'r Arglwydd Ganghellor fod y Cynulliad yn gallu cyrraedd y safonau sy'n gymwys ar gyfer cofnodion cyhoeddus y DU. Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n penderfynu datblygu opsiynau ar gyfer Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus i Gymru, yna bydd y Cynulliad yn hysbysu Pennaeth Archwilio Archifau'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
15. O dan amgylchiadau felly, bydd y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus:

- yn rhoi cyngor prydlon ar y tebygrwydd y bydd cynnig penodol yn bodloni'r safonau ar gyfer cadwraeth a mynediad sy'n gymwys i gofnodion cyhoeddus a gynhwysir o dan Ddeddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967;
- yn hysbysu'r Cynulliad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau o bwys a wneir i'r safonau hynny.

Cyfeiriadau a Llofnodion

16. Anfonir pob gohebiaeth ynghylch telerau ac amodau'r Memorandwm hwn yn ysgrifenedig i'r cyfeiriadau canlynol:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adeiladau Newydd y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF1 3NQ
Y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus
Kew
Richmond
Surrey
TW9 4DU
Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Brian Mitchell…….. Dyddiad:*...24th August 2000*....
Llofnodwyd ar ran y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus
Sarah Tyacke..…….. Dyddiad.....*30th August 2000....*

Atodiad A

Cyrff a noddir ac y bernir bod eu cofnodion yn perthyn i gofnodion cyhoeddus Cymru fel yr ymdrinnir â hwy o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

a. Cyngor Cefn Gwlad Cymru

b. Pwyllgorau Ymarferwyr Teulu ar gyfer Ardaloedd yng Nghymru
c. Estyn
d. Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru
e. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
f. Ysbytai'r gwasanaeth iechyd, o fewn ystyr Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, yng Nghymru
g. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
h. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru
i. Awdurdodau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer dosbarthau neu ardaloedd yng Nghymru neu ar gyfer Cymru neu ardaloedd ynddi, gan gynnwys ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae eu hysbytai, eu sefydliadau a'u cyfleusterau i gyd wedi'u lleoli yng Nghymru
j. Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru; a'i ragflaenwyr
k. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
l. Bwrdd Iechyd Cymru
m. Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r rhestr hon yn gyflawn ar 1 Medi 2000.